Hawdd ei Ddeall

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Rhannu â'n gilydd 2024 i 2025

## Ein cynllun i helpu pobl i weithio gyda'i gilydd yn y Celfyddydau

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gydrannu 2024/25: Menter Strategol Cyngor Celfyddydau Cymru i annog Datblygiad Cyfleoedd Rhwydweithio**'.

**Mehefin 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd geiriau mewn **glas trwm** yn anodd eu deall. Gallwch edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 18**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.arts.wales/cy

**E-bost:** creative.learning@arts.wales

**Ffôn:** 029 2044 1391

**Hawdd ei Ddeall Cymru** wnaeth y ddogfen hon yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

**Rhif Trwydded Photosymbols 403527247.**

PHOTO SYMBOLS
Licence Number 403527247

# Cynnwys

Tudalen

Ynglŷn â rhannu â'n gilydd 2024 i 2025 .................................. 4

Sut i wneud cais am nawdd .................................................. 10

Beth fydd yn digwydd os byddwch chi'n cael y nawdd.... 14

Pryd i wneud cais ......................................................... 15

Oes arnoch chi angen cysylltu â ni? ...................................... 16

Geiriau anodd ............................................................... 18


# Ynglŷn â rhannu â'n gilydd 2024 i 2025



Mae arnon ni eisiau rhoi nawdd ar gyfer syniadau sy'n helpu pobl yn y celfyddydau i weithio gyda'i gilydd.



Mae gweithio gyda'ch gilydd hefyd yn cael ei alw'n **rhwydweithio**. Mae grŵp o bobl sy'n gweithio gyda'i gilydd yn **rhwydwaith**.




Rydyn ni'n meddwl bod hyn yn bwysig iawn oherwydd Covid-19.



Mae arnon ni wir eisiau helpu gwaith sy'n cefnogi gweithio gyda llawer o wahanol fathau o bobl.



A gwneud yn siŵr bod y bobl sydd weithiau ddim yn cael y cyfle yn medru cymryd rhan.

Mae arnon ni hefyd eisiau i bobl siarad am **Mae Bywyd Pobl Ddu o Bwys ac Ni Chawn ein Dileu**.



Mae'r rhain yn fudiadau sy'n sefyll am gydraddoldeb dros grwpiau lleiafrifol – fel pobl ddu a phobl anabl.




Rydyn ni'n credu bod y mudiadau hyn yn bwysig iawn yn y celfyddydau.



Mae arnon ni eisiau clywed am bob math o syniadau.

**Ond mae gennym ni lawer o ddiddordeb mewn cefnogi syniadau ynglŷn â:**



- Gweithio gyda phobl o wahanol gefndiroedd.



- Grwpiau byddar, anabl a **niwroamrywiol**.



Mae **niwroamrywiol** yn meddwl pobl sydd â'u meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.



- Pobl sy'n dod o wahanol wledydd a diwylliannau.



- Gweithio gyda phobl eraill sydd efallai ddim yn cael yr un cyfleoedd i fwynhau'r celfyddydau. Er enghraifft, oherwydd ble maen nhw'n byw. Neu oherwydd nad oes ganddyn nhw ddigon o arian.




- Fe hoffen ni gael ceisiadau am nawdd gan bobl nad ydyn nhw'n cael yr un cyfleoedd i weithio yn y celfyddydau.



Gall **rhwydweithiau** fod yn grwpiau bach neu grwpiau mawr.




Efallai eu bod yn cyfarfod yn aml neu ddim yn cyfarfod yn aml.




Efallai mai dim ond ar-lein mae rhai grwpiau yn cyfarfod.



Mae **rhwydweithiau'n** bwysig ar gyfer pethau fel:

- Rhannu gwybodaeth
- Rhannu sgiliau
- Cefnogi ei gilydd
- Rhannu offer
- Siarad trwy bob rhan o'r syniad.




Gallwn gefnogi **rhwydweithiau** newydd. A **rhwydweithiau** sy'n bod yn barod.

Gallwn roi arian ar gyfer:



- Y gost o redeg cyfarfod ble gall pobl siarad am gychwyn **rhwydwaith** newydd



- Y gost o gychwyn cyfarfodydd neu grwpiau ar-lein.



Helpu **rhwydwaith** sy'n bod yn barod i ddatblygu. Er enghraifft, gwneud i'w **rhwydwaith** dyfu.



Gallwn gefnogi llawer o wahanol fathau o **rwydweithiau**.



Fe hoffen ni weld sut y bydd **rhwydweithiau** newydd yn helpu pobl eraill.




A gweld sut y gall y **rhwydwaith** bara.

# Sut i wneud cais am nawdd



Gallwn roi hyd at £2500 ar gyfer pob prosiect.



I wneud cais bydd angen i chi ddefnyddio ein porth ar-lein.



Os nad ydych chi wedi defnyddio porth o’r blaen, bydd angen i chi gofrestru yn gyntaf. Mae cyfarwyddiadau sut i wneud hyn ar ein gwefan yma: https://portal.arts.wales



Os na allwch chi gael y ffurflen ar-lein neu ei defnyddio, neu os oes arnoch chi angen help, e-bostiwch ni yn: grants@arts.wales.

**Dylech chi:**




1. **Lenwi ffurflen gais Rhannu â'n gilydd 2024-25 neu ein porth ar-lein**



2. **Lanlwytho'r pethau canlynol i'r porth ar-lein gyda'ch ffurflen gais:**




Rhowch ddisgrifiad o'ch prosiect i ni. Dylai hyn gynnwys:

- Y pethau rydych chi am eu gwneud a pham
- Pam y mae ar bobl angen y gwaith
- Y bobl a'r mudiadau rydych chi'n meddwl y byddwch chi'n gweithio gyda nhw
- Sut y byddwch chi'n eu cael nhw i gymryd rhan
- Sut y bydd yn helpu'r bobl sy'n cymryd rhan.




Gallwch wneud hyn trwy ysgrifennu, **neu** mewn fideo neu recordio llais.

Os ydych chi'n gwneud hyn trwy **ysgrifennu**:



- Peidiwch ag ysgrifennu mwy na dwy ochr o bapur A4.

Os ydych chi'n anfon **fideo neu'n recordio llais**:




- Os ydych chi'n anfon **fideo** neu'n **recordio llais**, gwnewch yn siŵr nad yw eich recordiad yn fwy na phum munud o hyd.




I gael mwy o wybodaeth am sut i anfon **fideo** neu **recordio llais** cliciwch yma

3. **Eglurwch yn glir sut rydych chi'n bwriadu defnyddio'r arian**





Gallwn dalu am **holl** gostau eich prosiect. Cyn belled â'i fod ddim dros **£2500**. Gallwn dalu am bethau fel:


- Llogi ystafell
- Bwyd a diod
- Talu am berson i roi sgwrs neu gefnogi'r grŵp
- Offer
- Meddalwedd sydd ei angen ar gyfer gwaith.



**Dim** ond ar gyfer pobl sy'n rhoi sgwrs neu bobl sydd â phrif rôl y gallwn ni dalu am bethau fel costau teithio.





Gallwn dalu am fudiadau sydd ddim wedi'u lleoli yng Nghymru. Cyn bellad â bod y **rhwydwaith** yn mynd i fod yng Nghymru.



A gall y **rhwydwaith** gynnwys pobl o'r tu allan i Gymru.

# Beth fydd yn digwydd os byddwch chi'n cael y nawdd




Byddwn yn gofyn am adroddiad byr am y cyfarfodydd neu'r gwaith sy'n digwydd.



Er enghraifft, faint o bobl sy'n cymryd rhan. A beth rydych chi'n wneud ac yn bwriadu ei wneud wrth fynd ymlaen.



Byddwn yn cadw hyd at £300 o'ch nawdd. Byddwn yn ei dalu pan fyddwn ni wedi cael eich adroddiad.

# Pryd i wneud cais




Gallwch wneud cais erbyn **5pm** ar **Dydd Llun 19 Awst 2024.**




Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys **yr holl** wybodaeth cefnogi sydd ei hangen arnoch gyda'ch ffurflen gais.



Bydd grŵp o staff yng Nghyngor Celfyddydau Cymru yn penderfynu pwy sydd i gael nawdd.




Byddwn yn gwneud ein gorau i ddweud wrthych chi beth rydyn ni'n ei benderfynu dim hwyrach na 8 wythnos ar ôl y dyddiad cau.

# Oes arnoch chi angen cysylltu â ni?



Os ydych chi'n cael problemau â'r ffurflen gais neu ein porth ar-lein, **e-bostiwch**: grants@arts.wales

Mae llawer o ffyrdd y gallwch chi gysylltu â ni yng Nghyngor y Celfyddydau:



**E-bost**: grants@arts.wales



**Ffôn**: 03301 242733

Mae ein llinell ffôn ar agor o 9am hyd 5pm dydd Llun i ddydd Iau. Mae ar agor tan 4.30pm ar ddydd Gwener.

**Twitter**: @Arts_Wales_




**Gwefan**: celf.cymru/cy




Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am y ffordd o gysylltu â ni ar ein gwefan.

I siarad â rhywun am syniad eich prosiect cysylltwch â:

**Amanda Loosemore**



**E-bost:** amanda.loosemore@arts.wales

**Ffôn**: 01267 230337

neu 07967 161763

**Lisa Williams**



**E-bost**: lisa.williams@arts.wales

**Ffôn**: 029 2044 1349



Os oes gennych chi unrhyw anghenion cefnogi gadewch i ni wybod trwy e-bost: grants@arts.wales.

# Geiriau anodd

## Niwroamrywiol

Mae hyn yn meddwl pobl sydd â'u meddyliau yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol.

## Rhwydweithio

Mae gweithio gyda'ch gilydd hefyd yn cael ei alw'n rhwydweithio. Mae grŵp o bobl sy'n gweithio gyda'i gilydd yn rhwydwaith.